



OFFERYNNAU STATUDOL
CYMRU

2009 Rhif 1350 (Cy.126)

ADDYSG, CYMRU

**Rheoliadau Addysg (Cyflenwi
Gwybodaeth) (Cymru)
2009**

NODYN ESBONIADOL

(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)

Mae'r Rheoliadau hyn yn ei gwneud yn ofynnol i gyflogwyr athrawon sydd wedi'u cofrestru gyda Chyngor Addysgu Cyffredinol Cymru ("y Cyngor") ac i asiantaethau cyflenwi gyflwyno adroddiad i'r Cyngor am achosion camymddwyn ac achosion anghymhwysedd ac eithrio'r achosion hynny y mae'n ofynnol iddynt ddarparu gwybodaeth amdanynt i'r Bwrdd Gwahardd Annibynnol o dan Ddeddf Diogelu Grwpiau Hyglwyf 2006. Maent yn dirymu Rheoliadau Addysg (Cyflenwi Gwybodaeth) (Cymru) 2003 a oedd yn ei gwneud yn ofynnol i adroddiadau am achosion camymddwyn gael eu cyflwyno i Weinidogion Cymru ac i adroddiadau am achosion anghymhwysedd gael eu cyflwyno i'r Cyngor. O dan y Rheoliadau newydd hyn mae adroddiad am bob achos i'w gyflwyno i'r Cyngor.

Rhaid i gyflogwyr gyflwyno adroddiad i'r Cyngor os ydynt yn rhoi'r gorau i ddefnyddio gwasanaethau athro cofrestredig neu athrawes gofrestrredig ar sail benodol neu os gallent fod wedi gwneud hynny pe na bai'r unigolyn hwnnw eisoes wedi rhoi'r gorau i ddarparu ei wasanaethau. Rhaid i asiantau gyflwyno adroddiad i'r Cyngor os ydynt wedi trefnu i athro cofrestredig neu athrawes gofrestrredig wneud gwaith ar ran awdurdod addysg lleol, corff llywodraethu neu berchennog ysgol annibynnol a'u bod wedi terfynu'r trefniadau hynny ar sail benodol, neu os gallent fod wedi gwneud hynny pe na bai'r athro neu'r athrawes eisoes wedi terfynu'r trefniadau neu wedi rhoi'r gorau i fod ar gael i weithio. Y seiliau penodedig yw camymddygiad, anghymhwysedd proffesiynol a cholffarniad am dramgwydd perthnasol. Mae tramgwydd perthnasol yn dramgwydd ac eithrio un nad oes ganddo berthnasedd o bwys i ffitrwydd person i fod yn athro cofrestredig neu'n athrawes gofrestrredig.

WELSH
STATUTORY INSTRUMENTS

2009 No. 1350 (W.126)

EDUCATION, WALES

**The Education (Supply of
Information) (Wales) Regulations
2009**

EXPLANATORY NOTE

(This note is not part of the Regulations)

These Regulations require the employers of teachers registered with the General Teaching Council for Wales ("the Council") and supply agencies to report cases of misconduct and incompetence to the Council other than those cases they are required to provide information about to the Independent Barring Board under the Safeguarding Vulnerable Groups Act 2006. They revoke the Education (Supply of Information) (Wales) Regulations 2003 which required misconduct cases to be reported to the Welsh Ministers and incompetence cases to be reported to the Council. Under these new Regulations all cases are to be reported to the Council.

Employers must make a report to the Council if they cease to use a registered teacher's services on a specified ground or if they might have done so had that teacher not already ceased to provide his or her services. Agents must make a report to the Council if they have arranged for a registered teacher to carry out work on behalf of a local education authority, a governing body or a proprietor of an independent school and terminate those arrangements on a specified ground, or might have done so had the teacher not already terminated the arrangements or ceased to be available for work. The specified grounds are misconduct, professional incompetence and conviction of a relevant offence. A relevant offence is an offence other than one having no material relevance to a person's fitness to be a registered teacher.

Mae'r Atodlen yn nodi'r wybodaeth sydd i'w darparu yn yr adroddiadau.

The Schedule sets out the information to be provided in the reports.

2009 Rhif 1350 (Cy.126)

ADDYSG, CYMRU

**Rheoliadau Addysg (Cyflwyno
Gwybodaeth) (Cymru)
2009**

<i>Gwnaed</i>	<i>2 Mehefin 2009</i>
<i>Gosodwyd gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru</i>	<i>4 Mehefin 2009</i>
<i>Yn dod i rym</i>	<i>12 Hydref 2009</i>

Mae Gweinidogion Cymru yn gwneud y Rheoliadau a ganlyn drwy arfer y pwerau a roddwyd i'r Ysgrifennydd Gwladol gan adrannau 6, 15, 15A a 42(6) a (7) o Ddeddf Addysgu ac Addysg Uwch 1998 ac Atodlen 2 iddi(1), ac a freiniwyd bellach yng Ngweinidogion Cymru(2), ac ar ôl ymgynghori â Chyngor Addysgu Cyffredinol Cymru'n unol ag adran 42(9) o'r Ddeddf.

Enwi, cychwyn a chymhwysu

1.—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Addysg (Cyflenwi Gwybodaeth) (Cymru) 2009 a deuant i rym ar 12 Hydref 2009.

(2) Mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys o ran Cymru.

(3) Nid yw'r Rheoliadau hyn yn gymwys pan fo'n ofynnol i gyflogwr perthnasol neu asiant ddarparu gwybodaeth i'r Bwrdd Gwahardd Annibynnol o dan adran 35, 36 neu 39 o Ddeddf Diogelu Grwpiau Hyglwyf 2006(3) mewn perthynas ag achos athro cofrestredig neu athrawes gofrestredig, y byddai fel arall yn ofynnol iddynt gyflwyno adroddiad ynghylch y ffeithiau amdanynt o dan reoliad 4(1) neu 5(1) o'r Rheoliadau hyn.

(1) 1998 p.30. Mae Atodlen 2 yn gymwys o ran y Cyngor yn rhinwedd adran 9 o Ddeddf 1998. Disodlwyd adran 15 ac mewnosodwyd adran 15A gan baragraff 83 o Atodlen 21 i Ddeddf Addysg 2002 (p.32) a diwygiwyd y ddwy adran wedi hynny gan baragraffau 5 a 6 o Atodlen 9 i Ddeddf Diogelu Grwpiau Hyglwyf 2006 (p.47). I gael ystyr "prescribed" gweler adran 43(1) o Ddeddf 1998.

(2) Trosglwyddwyd swyddogaethau'r Ysgrifennydd Gwladol i Gynulliad Cenedlaethol Cymru yn rhinwedd adran 211 o Ddeddf Addysg 2002 a Gorchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999 (O.S. 1999/672) ac yna i Weinidogion Cymru yn rhinwedd paragraff 30 o Atodlen 11 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p.32).

(3) 2006 p.47.

2009 No. 1350 (W.126)

EDUCATION, WALES

**The Education (Supply of
Information) (Wales) Regulations
2009**

<i>Made</i>	<i>2 June 2009</i>
<i>Laid before the National Assembly for Wales</i>	<i>4 June 2009</i>
<i>Coming into force</i>	<i>12 October 2009</i>

The Welsh Ministers make the following Regulations in exercise of the powers conferred on the Secretary of State by sections 6, 15, 15A and 42(6) and (7) of, and Schedule 2 to, the Teaching and Higher Education Act 1998(1) and now vested in the Welsh Ministers(2), and after consulting the General Teaching Council for Wales in accordance with section 42(9) of the Act.

Title, commencement and application

1.—(1) The title of these Regulations is the Education (Supply of Information) (Wales) Regulations 2009 and they come into force on 12 October 2009.

(2) These Regulations apply in relation to Wales.

(3) These Regulations do not apply where a relevant employer or an agent is required to provide information to the Independent Barring Board under section 35, 36 or 39 of the Safeguarding Vulnerable Groups Act 2006(3) in relation to a registered teacher's case, the facts of which they would otherwise be required to report under regulation 4(1) or 5(1) of these Regulations.

(1) 1998 c.30. Schedule 2 applies in relation to the Council by virtue of section 9 of the 1998 Act. Section 15 was substituted and section 15A was inserted by paragraph 83 of Schedule 21 to the Education Act 2002 (c.32) and both sections were subsequently amended by paragraphs 5 and 6 of Schedule 9 to Safeguarding Vulnerable Groups Act 2006 (c.47). For the meaning of "prescribed" see section 43(1) of the 1998 Act.

(2) The Secretary of State's functions were transferred to the National Assembly for Wales by virtue of section 211 of the Education Act 2002 and the National Assembly for Wales (Transfer of Functions) Order 1999 (S.I. 1999/672) and then to the Welsh Ministers by virtue of paragraph 30 of Schedule 11 to the Government of Wales Act 2006 (c.32).

(3) 2006 c.47.

Dirymu

2. Mae Rheoliadau Addysg (Cyflenwi Gwybodaeth) (Cymru) 2003(1) wedi'u dirymu.

Dehongli

3. Ac eithrio pan fo'r cyd-destun yn mynnu fel arall, yn y Rheoliadau hyn—

mae i "asiant" yr ystyr a roddir i "agent" gan adran 15A(1) o Ddeddf 1998;

ystyr "athro cofrestredig neu athrawes gofrestredig" ("*registered teacher*") yw —

- (a) person sydd am y tro wedi'i gofrestru o dan adran 3 o Ddeddf 1998;
- (b) person a oedd wedi'i gofrestru o dan adran 3 o Ddeddf 1998 adeg unrhyw ymddygiad neu dramgwydd honedig ar ei ran; neu
- (c) person sydd wedi gwneud cais am gael ei gofrestru o dan adran 3 o Ddeddf 1998;

mae i "cyflogwr perthnasol" yr ystyr a roddir i "relevant employer" gan adran 15(5) o Ddeddf 1998;

ystyr "y Cyngor" ("*the Council*") yw Cyngor Addysgu Cyffredinol Cymru;

ystyr "Deddf 1998" ("*the 1998 Act*") yw Deddf Addysgu ac Addysg Uwch 1998;

ystyr "gwasanaethau" ("*services*") yw gwasanaethau a ddarperir i gyflogwr perthnasol yng Nghymru ac mae'n cynnwys gwasanaethau proffesiynol a gwirfoddol;

ystyr "Pwyllgor" ("*Committee*") yw Pwyllgor Ymchwilio, Pwyllgor Cymhwysedd Proffesiynol neu Bwyllgor Ymddygiad Proffesiynol a sefydlwyd o dan Reoliadau Cyngor Addysgu Cyffredinol Cymru (Swyddogaethau Disgyblu) 2001(2);

ystyr "Pwyllgor Ymchwilio" ("*Investigating Committee*") yw pwyllgor a sefydlwyd o dan reoliad 3(1) o Reoliadau Cyngor Addysgu Cyffredinol Cymru (Swyddogaethau Disgyblu) 2001; ac

ystyr "trefniadau" ("*arrangements*") yw trefniadau o'r math y cyfeirir atynt yn adran 15A(1) o Ddeddf 1998 i weithiwr sy'n athro cofrestredig neu athrawes gofrestredig wneud gwaith yng Nghymru.

Adroddiadau cyflogwr

4.—(1) O ran cyflogwr perthnasol—

- (a) pan fo wedi rhoi'r gorau i ddefnyddio

Revocation

2. The Education (Supply of Information) (Wales) Regulations 2003(1) are revoked.

Interpretation

3. Except where the context otherwise requires, in these Regulations—

"the 1998 Act" ("*Deddf 1998*") means the Teaching and Higher Education Act 1998;

"agent" ("*asiant*") has the meaning given by section 15A(1) of the 1998 Act;

"arrangements" ("*trefniadau*") means arrangements of the kind referred to in section 15A(1) of the 1998 Act for a worker who is a registered teacher to carry out work in Wales;

"Committee" ("*Pwyllgor*") means an Investigating Committee, a Professional Competence Committee or a Professional Conduct Committee established under the General Teaching Council for Wales (Disciplinary Functions) Regulations 2001(2);

"the Council" ("*y Cyngor*") means the General Teaching Council for Wales;

"Investigating Committee" ("*Pwyllgor Ymchwilio*") means a committee established under regulation 3(1) of the General Teaching Council for Wales (Disciplinary Functions) Regulations 2001;

"registered teacher" ("*athro cofrestredig neu athrawes gofrestredig*") means —

- (a) a person for the time being registered under section 3 of the 1998 Act;
- (b) a person who was registered under section 3 of the 1998 Act at the time of any alleged conduct or offence on his or her part; or
- (c) a person who has made an application to be registered under section 3 of the 1998 Act;

"relevant employer" ("*cyflogwr perthnasol*") has the meaning given by section 15(5) of the 1998 Act; and

"services" ("*gwasanaethau*") means services provided to a relevant employer in Wales and includes professional and voluntary services.

Employer's reports

4.—(1) Where a relevant employer—

- (a) has ceased to use the services of a registered

(1) O.S. 2003/542 (Cy.76).

(2) O.S. 2001/1424 (Cy.99).

(1) S.I. 2003/542 (W.76).

(2) S.I. 2001/1424 (W.99).

gwasanaethau athro cofrestredig neu athrawes gofrestrdedig ar sail —

- (i) camymddygiad;
 - (ii) anghymhwysedd proffesiynol; neu
 - (iii) collfarniad am dramgwydd perthnasol o fewn ystyr "relevant offence" ym mharagraff 8 o Atodlen 2 i Ddeddf 1998; neu
- (b) pan allai fod wedi rhoi'r gorau i ddefnyddio gwasanaethau athro cofrestredig neu athrawes gofrestrdedig ar sail o'r fath pe na bai'r athro neu'r athrawes wedi rhoi'r gorau i ddarparu'r gwasanaethau hynny,

rhaid i'r cyflogwr gyflwyno i'r Cyngor adroddiad am ffeithiau'r achos a darparu'r holl wybodaeth a restrir yn Rhan 1 o'r Atodlen ac sydd ar gael i'r cyflogwr mewn perthynas â'r athro neu'r athrawes.

(2) Rhaid i'r Cyngor drefnu bod yr holl wybodaeth a ddarperir iddynt o dan y rheoliad hwn ar gael i Bwyllgor Ymchwilio.

Adroddiadau asiant

5.—(1) O ran asiant—

- (a) pan fo wedi terfynu trefniadau ar sail—
- (i) camymddygiad;
 - (ii) anghymhwysedd proffesiynol; neu
 - (iii) collfarniad am dramgwydd perthnasol o fewn ystyr "relevant offence" ym mharagraff 8 o Atodlen 2 i Ddeddf 1998;
- (b) pan allai fod wedi terfynu trefniadau ar sail o'r fath pe na bai'r athro neu'r athrawes wedi'u terfynu; neu
- (c) pan allai fod wedi ymatal rhag gwneud trefniadau newydd ar gyfer athro cofrestredig neu athrawes gofrestrdedig ar sail o'r fath pe na bai'r athro neu'r athrawes wedi rhoi'r gorau i ofalu bod ar gael i weithio,

rhaid i'r asiant gyflwyno i'r Cyngor adroddiad am ffeithiau'r achos a darparu'r holl wybodaeth a restrir yn Rhan 2 o'r Atodlen ac sydd ar gael i'r asiant mewn perthynas â'r athro neu'r athrawes.

(2) Rhaid i'r Cyngor drefnu bod yr holl wybodaeth a ddarperir iddynt o dan y rheoliad hwn ar gael i Bwyllgor Ymchwilio.

teacher on the ground of —

- (i) misconduct;
 - (ii) professional incompetence; or
 - (iii) conviction of a relevant offence within the meaning of paragraph 8 of Schedule 2 to the 1998 Act, or
- (b) might have ceased to use a registered teacher's services on such a ground had the teacher not ceased to provide those services,

the employer must report the facts of the case and provide all the information listed in Part 1 of the Schedule that is available to the employer in relation to the teacher to the Council.

(2) The Council must make all information provided to them under this regulation available to an Investigating Committee.

Agent's reports

5.—(1) Where an agent—

- (a) has terminated arrangements on the ground of—
- (i) misconduct;
 - (ii) professional incompetence; or
 - (iii) conviction of a relevant offence within the meaning of paragraph 8 of Schedule 2 to the 1998 Act;
- (b) might have terminated arrangements on such a ground if the registered teacher had not terminated them; or
- (c) might have refrained from making new arrangements for a registered teacher on such a ground if the teacher had not ceased to make himself or herself available for work,

the agent must report the facts of the case and provide all the information listed in Part 2 of the Schedule that is available to the agent in relation to the teacher to the Council.

(2) The Council must make all information provided to them under this regulation available to an Investigating Committee.

Jane Hutt

Y Gweinidog dros Blant, Addysg, Dysgu Gydol Oes a
Sgiliau, un o Weinidogion Cymru

Minister for Children, Education, Lifelong Learning
and Skills, one of the Welsh Ministers

2 Mehefin 2009

2 June 2009

RHAN 1

PART 1

Yr wybodaeth sydd i'w chyflenwi gan gyflogwr perthnasol

1. Datganiad o'r rhesymau dros roi'r gorau i ddefnyddio gwasanaethau'r person.

2. Cofnodion y cyflogwr ynglŷn â rhoi'r gorau i ddefnyddio gwasanaethau'r person neu ag unrhyw bryd yr ystyriwyd rhoi'r gorau i wneud hynny, gan gynnwys nodiadau a chofnodion cyfarfodydd, nodiadau cyf-weld, a thystiolaeth a gyflenwyd i neu a sicrhawyd gan y cyflogwr.

3. Cofnodion y cyflogwr ynglŷn â'r ymddygiad a arweiniodd yn y pen draw at roi'r gorau i ddefnyddio gwasanaethau'r person neu a allai, oni bai bod y person wedi rhoi'r gorau i ddarparu'r gwasanaethau hynny, fod wedi arwain y cyflogwr i roi'r gorau i ddefnyddio ei wasanaethau, gan gynnwys nodiadau a chofnodion cyfarfodydd, nodiadau cyf-weld, a thystiolaeth a gyflenwyd i neu a sicrhawyd gan y cyflogwr.

4. Llythyrau, rhybuddion neu hysbysiadau gan y cyflogwr a ddyroddwyd i berson mewn perthynas â rhoi'r gorau i ddefnyddio ei wasanaethau neu ag unrhyw bryd yr ystyriwyd rhoi'r gorau i wneud hynny, neu'r ymddygiad a arweiniodd yn y pen draw at roi'r gorau i ddefnyddio gwasanaethau'r person neu a allai, oni bai bod y person wedi rhoi'r gorau i ddarparu'r gwasanaethau hynny, fod wedi arwain y cyflogwr i roi'r gorau i ddefnyddio'i wasanaethau, ac atebion neu gynrychioliadau'r person mewn perthynas â hynny.

5. Unrhyw ddatganiadau eraill, cynrychioliadau eraill a thystiolaeth arall a gyflwynwyd gan berson i'r cyflogwr mewn perthynas â rhoi'r gorau i ddefnyddio ei wasanaethau neu ag unrhyw bryd yr ystyriwyd rhoi'r gorau i wneud hynny, neu'r ymddygiad a arweiniodd yn y pen draw at roi'r gorau i ddefnyddio gwasanaethau'r person neu a allai, oni bai bod y person wedi rhoi'r gorau i ddarparu'r gwasanaethau hynny, fod wedi arwain y cyflogwr i roi'r gorau i ddefnyddio'i wasanaethau.

6. Llythyr yn hysbysu o fwriad person i roi'r gorau i ddarparu gwasanaethau.

7. Unrhyw ddogfen arall neu wybodaeth arall y mae'r cyflogwr yn ystyried yn berthnasol i unrhyw ymchwiliad a allai gael ei gynnal gan Bwyllgor Ymchwilio neu unrhyw achos a allai gael ei ddwyn gan Bwyllgor yn erbyn athro cofrestredig neu athrawes gofrestredig.

Information to be supplied by a relevant employer

1. A statement of reasons for ceasing to use the person's services.

2. Employer's records relating to the cessation of the use of the person's services or any contemplated cessation, including notes and minutes of meetings, interview notes, and evidence supplied to or obtained by the employer.

3. Employer's records relating to the conduct which eventually led to the cessation of the use of the person's services or might, but for the person having ceased to provide those services, have led the employer to cease to use his or her services, including notes and minutes of meetings, interview notes, and evidence supplied to or obtained by the employer.

4. Employer's letters, warnings or notices issued to a person in relation to the cessation of the use of his or her services or contemplated cessation, or the conduct which eventually led to the cessation of the use of the person's services or might, but for the person having ceased to provide those services, have led the employer to cease to use his or her services, and the person's replies or representations in relation thereto.

5. Any other statements, representations and evidence submitted by a person to the employer in relation to the cessation of the use of his or her services or contemplated cessation, or the conduct which eventually led to the cessation of the use of the person's services or might, but for the person having ceased to provide those services, have led the employer to cease to use his or her services.

6. Letter advising a person's intention to cease to provide services.

7. Any other document or information which the employer considers is relevant to any investigation which may be carried out by an Investigating Committee or any proceedings which may be taken by a Committee against a registered teacher.

Yr wybodaeth sydd i'w chyflenwi gan asiant

1. Datganiad o'r rhesymau dros derfynu'r trefniadau.
2. Unrhyw gofnodion ynglŷn â therfynu'r trefniadau neu ag unrhyw adeg yr ystyriwyd eu derfynu, gan gynnwys nodiadau a chofnodion cyfarfodydd, nodiadau cyf-weld, a thystiolaeth a gyflenwyd i neu a sicrhawyd gan yr asiant.
3. Unrhyw gofnodion ynglŷn â'r ymddygiad a arweiniodd yn y pen draw at derfynu trefniadau neu a allai, oni bai bod y gweithiwr wedi derfynu trefniadau, fod wedi arwain i'r asiant eu derfynu, neu a allai, oni bai bod y gweithiwr wedi rhoi'r gorau i ofalu bod ar gael i weithio, fod wedi arwain yr asiant i ymatal rhag gwneud trefniadau newydd, gan gynnwys nodiadau a chofnodion cyfarfodydd, nodiadau cyf-weld, a thystiolaeth a gyflenwyd i neu a sicrhawyd gan yr asiant
4. Llythyrau, rhybuddion neu hysbysiadau gan asiant a ddyroddwyd i berson mewn perthynas â therfynu trefniadau, neu'r ymddygiad a arweiniodd yn y pen draw at derfynu trefniadau, neu a allai, oni bai bod y gweithiwr wedi derfynu trefniadau, fod wedi arwain yr asiant i'w derfynu, neu a allai, oni bai bod y gweithiwr wedi rhoi'r gorau i ofalu bod ar gael i weithio, fod wedi arwain yr asiant i ymatal rhag gwneud trefniadau newydd, ac atebion neu gynrychioliadau'r gweithiwr mewn perthynas â hynny.
5. Unrhyw ddatganiadau eraill, cynrychioliadau eraill a thystiolaeth arall a gyflwynwyd gan berson i'r asiant mewn perthynas â therfynu trefniadau, neu'r ymddygiad a arweiniodd yn y pen draw at derfynu trefniadau neu a allai, oni bai bod y gweithiwr wedi derfynu'r trefniadau, fod wedi arwain yr asiant i'w derfynu, neu a allai, oni bai bod y gweithiwr wedi rhoi'r gorau i ofalu bod ar gael i weithio, fod wedi arwain yr asiant i ymatal rhag gwneud trefniadau newydd.
6. Llythyr gan y gweithiwr yn derfynu'r trefniadau neu'n rhoi'r gorau i ofalu bod ar gael i weithio.
7. Unrhyw ddogfen arall neu wybodaeth arall y mae'r asiant yn ystyried yn berthnasol i unrhyw ymchwiliad a allai gael ei gynnal gan Bwyllgor Ymchwilio neu unrhyw achos a allai gael ei ddwyn gan Bwyllgor yn erbyn athro cofrestredig neu athrawes gofrestredig.

© Hawlfraint y Goron 2009

Argraffwyd a chyhoeddwyd yn y Deyrnas Unedig gan The Stationery Office Limited o dan awdurdod ac arolygiaeth Carol Tullo, Rheolwr Gwasg Ei Mawrhydi ac Argraffydd Deddfau Seneddol y Frenhines.

Information to be supplied by an agent

1. A statement of reasons for terminating the arrangements.
2. Any records relating to the termination of the arrangements or any contemplated termination, including notes and minutes of meetings, interview notes, and evidence supplied to or obtained by the agent.
3. Any records relating to the conduct which eventually led to the termination of arrangements or might, but for the worker having terminated arrangements, have led the agent to terminate them, or might, but for the worker having ceased to make himself or herself available for work, have led the agent to refrain from making new arrangements, including notes and minutes of meetings, interview notes, and evidence supplied to or obtained by the agent.
4. Agent's letters, warnings or notices issued to a person in relation to the termination of arrangements, or the conduct which eventually led to the termination of arrangements or might, but for the worker having terminated arrangements, have led the agent to terminate them, or might, but for the worker having ceased to make himself or herself available for work, have led the agent to refrain from making new arrangements, and the worker's replies or representations in relation thereto.
5. Any other statements, representations and evidence submitted by a person to the agent in relation to the termination of arrangements, or the conduct which eventually led to the termination of arrangements or might, but for the worker having terminated arrangements, have led the agent to terminate them, or might, but for the worker having ceased to make himself or herself available for work, have led the agent to refrain from making new arrangements.
6. Worker's letter terminating arrangements or ceasing to make himself or herself available for work.
7. Any other document or information which the agent considers is relevant to any investigation which may be carried out by an Investigating Committee or any proceedings which may be taken by a Committee against a registered teacher.

© Crown copyright 2009

Printed and Published in the UK by the Stationery Office Limited under the authority and superintendence of Carol Tullo, Controller of Her Majesty's Stationery Office and Queen's Printer of Acts of Parliament.